# St Davids Cathedral Music Festival

## 22 - 31 May 2026



Royal Patron:
His Majesty The King

## 2026 Programme

# Important Information

## Tickets

For more detailed information and to select your seats please book online via the St Davids Cathedral Website - **www.stdavidscathedral.org.uk/music-festival**. Please contact the Administrator, Ben Richards on 01437 722002 if you have any questions about booking tickets. Festival Patrons and Supporters have priority booking from Sunday 1st March, and tickets go on general sale from **Sunday 8th March.**

From Monday 18th May and during the Festival tickets may be obtained from the Festival Box Office on the Pebbles. Open 10.00am - 4.00pm.

Tickets, when still available, can also be bought at the Cathedral door before concerts.

## Local Discounts

All residents of St Davids (defined by postcodes SA62 6BN - SA62 6XX in St Davids Ward) are entitled to a discount of 20%. To access this offer, email **ben@stdavidscathedral.org.uk** with a scanned copy of your proof of residence (driving license or similar), and you'll be sent a discount code to be added at checkout.

Tickets to **all** events are free for all children aged 18 or younger when accompanied by an adult, but registration for these tickets is still required.

## Parking & Disabled Parking

Parking is available in the Merrivale, Quickwell Hill, Oriel y Parc and Pebbles car parks.

Disabled parking close to the Cathedral is very limited and priority will be given to those wheelchair users travelling alone. Please contact the Administrator on **ben@stdavidscathedral.org.uk** or 01437 722002 should you wish to book a disabled space.

# Listing of events for St Davids Cathedral Music Festival 2026

## Friday 22 May

2.00pm **Live Music Now - Mared Pugh-Evans**
A free performance in the City Hall for those in care in the local area, performed by Royal Harpist Mared Pugh-Evans.

6.00pm **Festival Launch - Festival Children's Chorus**
The 2026 Festival kicks off with a performance by the Festival Children's Chorus, led by Ula Weber. Ula is a renowned conductor, singer and animateur who has worked with Sing for Pleasure, CBSO and the BBC.
***Tickets £10 unreserved. U18s go free***

8.00pm **The Royal Harpist**
Mared Pugh-Evans, Harpist to His Majesty the King presents an evening concert of harp music from Wales and further afield.
***Tickets £15 unreserved. U18s go free***

## Saturday 23 May

11.00am **Coffee Concert: Choristers Unplugged**
The Cathedral Choristers ditch the cassocks and present a programme of their favourite popular and musical theatre songs. One not to be missed! ***Tickets £10 unreserved. U18s go free***



7.00pm **BBC National Orchestra of Wales**
**Martyn Brabbins** *Conductor*
**Ivan Karizna** *Cello*
**Coleridge-Taylor** *Ballade in A minor*
**Huw Watkins** *Cello Concerto*
**Beethoven** *Symphony No. 3 in E flat major 'Eroica'*



The BBC National Orchestra of Wales return for their annual performance at the Festival. Conductor Martyn Brabbins leads the orchestra in Samuel Coleridge-Taylor's 'Ballade in A minor', French Cellist Ivan Karizna joins the orchestra for Welsh composer Huw Watkins' Cello Concerto, and the programme concludes with a staple of the classical repertoire, Beethoven's 'Eroica' Symphony. This annual performance is one of the highlights of every Festival programme, and this year's promises to be no different.
***Tickets £30, £25, £15. U18s go free.***

## Sunday 24 May

11.00am **Choral Eucharist** *sung by the Cathedral Choir*

4.00pm **Choral Evensong**
*sung by the Elizabethan Madrigal Singers*

## Monday 25 May

11.00am **Coffee Concert: Choral Scholars**
Join our fabulous choral scholars, William Eardley-Taylor, Alto, Toby Diggle, Tenor and Matthew Fesmer, Bass in a recital of arias, art songs and lieder.
***Tickets £10 unreserved. U18s go free***

2.00pm **Family Concert: Peter and the Wolf**
Cathedral organists Simon Pearce and Laurence John present a short family concert, featuring Prokofiev's Peter and the Wolf, arranged for piano four hands.
***Tickets £10 unreserved. U18s go free***

7.00pm **Festival Organ Recital: Jan Liebermann**



20-year-old TikTok organ sensation Jan Liebermann presents the annual Festival Organ Recital on the Cathedral's Father Willis organ.
***Tickets £15 unreserved. U18s go free***

9.30pm **Vicars Choral & Choral Scholars in concert**
In this late-night concert, the cathedral choir's adult singers present a programme of renaissance polyphony and light-hearted numbers to round off the bank holiday weekend.
***Tickets £10 unreserved. U18s go free***

***Ticket offer: Monday 7.00pm and 9.30pm concerts £20***

## Tuesday 26 May

11.00am **Coffee Concert: Young Musician of Dyfed**
The winner of the annual Young Musician of Dyfed competition will perform in this morning recital. Full details to be released following the competition final in April. ***Tickets £10 unreserved. U18s go free***

2.00pm **Afternoon Jazz**
Local brother and sister duo, Talfan and Siriol Jenkins present an afternoon concert of original compositions and jazz standards for saxophone and piano.
***Tickets £15 unreserved. U18s go free***

5.00pm **Choral Evensong** *sung by the Choral Scholars*

7.00pm **Apollo5**



One of Britain's finest vocal ensembles perform their 'Evening Primrose' programme, featuring music by Monteverdi, Britten, Jerome Kern and George Gershwin.
***Tickets £23, £18, £15. U18s go free***

## Wednesday 27 May

3.00pm **Choral Evensong Live on BBC Radio 3**
The Cathedral Choir are joined by viol consort Fretwork for this live broadcast of Choral Evensong. The service will celebrate Tudor composer Thomas Tomkins who was born in St Davids, and whose father was Organist & Master of the Choristers.
***Please be seated by 2.45pm***

7.00pm **Fretwork**



Viol consort Fretwork present a scintillating evening of British consort music, celebrating composer John Dowland in the 400th anniversary year of his death.
***Tickets £23, £18, £15. U18s go free***

## Thursday 28 May

2.00pm **Oboe Recital**
Husband and wife duo Christopher and Catherine Tanner-Williams present an afternoon recital of music for piano and oboe, including music by Poulenc and Welsh composers Morfydd Owen and Richard Elfyn Jones.
***Tickets £15 unreserved. U18s go free***

5.00pm **Choral Evensong** *sung by the Vicars Choral, Choral Scholars & Vox Angelica*

6.00pm **Jazz Reception**
A drinks and canapes reception following Choral Evensong, featuring St Davids local Tom Marsh's jazz trio.
***Tickets £20 unreserved (food and drink included)***

## Friday 29 May

11.00am **Coffee Concert: Organ Scholar**
Organ Scholar Llewelyn Blezard-Greenwell gives an organ recital on the 1883 Father Willis organ.
***Tickets £10 unreserved. U18s go free***

5.00pm **Choral Evensong**
*sung by the Vicars Choral & Choral Scholars*

7.00pm **Simmy Singh: Belonging - Perthyn**



Dynamic classical fusion violinist and composer Simmy Singh presents an incredible programme ranging from Bach and folk to her own contemporary compositions, alongside her sister Rakhi, flautist Nigel Shaw and percussionist Simon Roth.
***Tickets £15 unreserved. U18s go free***

## Saturday 30 May

7.00pm **Farewell to Cantorion John S Davies Singers**



**John S Davies** *Conductor*
**The British Sinfonietta**
**Cantorion John S Davies**
**Bach** *Magnificat*
**Haydn** *Nelson Mass*
John S Davies presents his final concert with his eponymous choir, with two great works from the choral repertoire by Bach and Haydn. This is one not to miss!
***Tickets £30, £25, £15. U18s go free.***

## Sunday 31 May

11.00am **Choral Eucharist** *sung by St Andrew's Voices*

4.00pm **Choral Evensong** *sung by St Andrew's Voices*

# Nave Seating Plan

**Blue** Highest Price, **Purple** Middle Price,
**Green** Lowest Price (Unreserved)



## Become a Patron

The Festival is enormously indebted to our Patrons and Supporters, whose financial contributions allow us to continue offering world-class artists in Britain's smallest city.

Festival Patrons receive a number of benefits, including:

- Priority Booking for all Festival concerts
- Regular updates from the Administrator via email
- A complimentary Festival programme (usually £5)
- Accreditation in the Festival Programme.

Patronage of the Festival is just **£30 per person,** or **£50 per couple.** If you are interested in becoming a patron, email **ben@stdavidscathedral.org.uk** for more details.

## Food and Drink

The Refectory, run by MamGu Welshcakes, will be open throughout the Festival, 9.30am-4.00pm, serving their famous Welshcakes, great coffee and Welsh soul food for breakfast and lunch! For full details on Festival pre-concert dining, sign up to the mailing list by emailing **ben@stdavidscathedral.org.uk** to keep up to date with the latest offerings.

# Tickets

## Dod yn Noddwr

Mae'r Ŵyl yn ddyledus iawn i'n Noddwyr a'n Cefnogwyr, y mae eu cyfraniadau ariannol yn caniatáu i ni barhau i gynnig artistiaid o safon fyd-eang yn ninas leiaf Prydain.

Mae Noddwyr yr Ŵyl yn cael nifer o fuddion, gan gynnwys:

- Archebu â blaenoriaeth ar gyfer holl gyngherddau'r Ŵyl
- Diweddariadau rheolaidd gan y Gweinyddwr trwy e-bost
- Rhaglen yr Ŵyl am ddim (£5 fel arfer)
- Cydnabyddiaeth yn Rhaglen yr Ŵyl.

Cost noddi'r Ŵyl yw **£30 yr un**, neu **£50 fesul cwpl**.

Os oes diddordeb gennych mewn dod yn noddwr, e-bostiwch **festival@stdavidscathedral.org.uk** i gael rhagor o fanylion.

## Bwyd a Diod

Bydd y Ffreutur, sy'n cael ei redeg gan MamGu Welshcakes, ar agor drwy gydol yr Ŵyl, 9.30am-4.00pm, yn gweini eu pice ar y maen enwog, coffi gwych a bwyd cysurus Cymreig ar gyfer brecwast a chinio! I gael manylion llawn am giniawa cyn cyngherddau, cofrestrwch ar gyfer y rhestr bostio drwy e-bostio: **festival@stdavidscathedral.org.uk** i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr arlwy.

# Tocynnau

# Cynllun Seddi yng Nghorff yr Eglwys

**Glas** Pris Uchaf, **Porffor** Pris Canolig,
**Gwyrdd** Pris Isaf (Seddi heb eu cadw)



## Dydd Sadwrn 30 Mai

**7.00pm Ffarwelio â Chantorion John S Davies Singers**

**John S Davies** *Arweinydd*
**Y Sinffonieta Brydeinig**
**Cantorion John S Davies**
**Bach** *Magnificat*
**Haydn** *Offeren Nelson*



Mae John S Davies yn cyflwyno ei gyngerdd olaf gyda'i gôr o'r un enw, gyda dau waith gwych o'r repertoire corawl gan Bach a Haydn. Dyma un na ddylid ei golli!

***Tocynnau £30, £25, £15. Am ddim i blant dan 18 oed.***

## Dydd Sul 31 Mai

**11.00am Y Cymun Corawl**
*a gaiff ei ganu gan St Andrew's Voices*

**4.00pm Yr Hwyrol Weddi ar Gân**
*a gaiff ei chanu gan St Andrew's Voices*

## Dydd Iau 28 Mai

**2.00pm Datganiad Obo**
Mae'r ddeuawd o ŵr a gwraig Christopher a Catherine Tanner-Williams yn cyflwyno datganiad prynhawn o gerddoriaeth ar gyfer piano ac obo, gan gynnwys cerddoriaeth gan Poulenc a'r cyfansoddwyr Cymreig Morfydd Owen a Richard Elfyn Jones.
***Tocynnau £15 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**5.00pm Yr Hwyrol Weddi ar Gân** *a gaiff ei chanu gan y Ficeriaid Corawl, yr Ysgolorion Corawl a Vox Angelica*

**6.00pm Derbyniad Jazz**
Derbyniad diodydd a chanapés yn dilyn yr Hwyrol Weddi ar Gân, gyda thriawd jazz lleol Tom Marsh, sy'n hanu o Dyddewi.
***Tocynnau £20 heb eu cadw (gan gynnwys bwyd a diod)***

## Dydd Gwener 29 Mai

**11.00am Cyngerdd Coffi: Yr Ysgolor Organ**
Mae'r Ysgolor Organ Llewelyn Blezard-Greenwell yn rhoi datganiad ar organ y Tad Willis o 1883.
***Tocynnau £10 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**5.00pm Yr Hwyrol Weddi ar Gân**
*a gaiff ei chanu gan y Ficeriaid Corawl a'r Ysgolorion Corawl*

**7.00pm Simmy Singh: Perthyn - Belonging**



Mae'r feiolinydd a chyfansoddwr cyd-asio clasurol deinamig Simmy Singh yn cyflwyno rhaglen anhygoel sy'n amrywio o Bach a cherddoriaeth werin i'w chyfansoddiadau cyfoes ei hun, ochr yn ochr â'i chwaer Rakhi, y ffliwtydd Nigel Shaw a'r offerynnwr taro Simon Roth.
***Tocynnau £15 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**5.00pm Yr Hwyrol Weddi ar Gân**
*a gaiff ei chanu gan yr Ysgolorion Corawl*

**7.00pm Apollo5**



Un o ensembles lleisiol gorau Prydain, a fydd yn perfformio yn Nhyddewi am y tro cyntaf. Gallwch ddisgwyl cymysgedd o gerddoriaeth gysegredig ac anghysegredig mewn noson o ganu godidog.
***Tocynnau £23, £18, £15.***
***Am ddim i blant dan 18 oed***

## Dydd Mercher 27 Mai

**3.00pm Yr Hwyrol Weddi ar Gân yn Fyw ar BBC Radio 3**
Mae Côr yr Eglwys Gadeiriol yn ymuno â'r consort o feiolau Fretwork ar gyfer y darllediad byw hwn o'r Hwyrol Weddi ar Gân. Bydd y gwasanaeth yn dathlu'r cyfansoddwr Tuduraidd Thomas Tomkins, a anwyd yn Nhyddewi, ac yr oedd ei dad yn Organydd ac yn Feistr y Côr.
***Gofynnir i chi fod ar eich eistedd erbyn 2.45pm***

**7.00pm Fretwork**



Mae'r consort o feiolau Fretwork yn cyflwyno noson befriol o gerddoriaeth Brydeinig i gonsortiau, i ddathlu'r cyfansoddwr John Dowland ar 400 mlwyddiant ei farwolaeth.
***Tocynnau £23, £18, £15. Am ddim i blant dan 18 oed***

drefnu ar gyfer piano pedair llaw.
***Tocynnau £10 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed.***

**7.00pm Datganiad Organ yr Ŵyl: Jan Liebermann**



Mae'r organydd syfrdanol 20 oed, Jan Liebermann, sydd wedi dod i amlygrwydd ar TikTok, yn cyflwyno Datganiad Organ blynyddol yr Ŵyl ar organ Tad Willis yr Eglwys Gadeiriol.
***Tocynnau £15 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**9.30pm Ficeriaid Corawl ac Ysgolorion Corawl yn taro tôn**

Yn y cyngerdd hwyrnos hwn, mae cantorion hŷn côr yr eglwys gadeiriol yn cyflwyno rhaglen o bolyffoni o'r dadeni a chaneuon digrif i ddod â phenwythnos gŵyl y banc i'w derfyn.
***Tocynnau £10 heb eu cadw. Am ddim i blant 18 oed***

***Cynnig tocynnau: cyngherddau 7.00pm a 9.30pm ddydd Llun £20***

## Dydd Mawrth 26 Mai

**11.00am Cyngerdd Coffi: Cerddor Ifanc Dyfed**

Bydd enillydd cystadleuaeth flynyddol Cerddor Ifanc Dyfed yn perfformio yn y datganiad boreol hwn. Caiff y manylion llawn eu rhyddhau yn dilyn rownd derfynol y gystadleuaeth ym mis Ebrill. ***Tocynnau £10 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**2.00pm Jazz Prynhawn**

Bydd y ddeuawd leol o frawd a chwaer, Talfan a Siriol Jenkins, yn cyflwyno cyngerdd prynhawn o gyfansoddiadau gwreiddiol a ffefrynnau jazz ar gyfer sacsoffon a phiano.
***Tocynnau £15 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**7.00pm Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC**
**Martyn Brabbins** *Arweinydd*
**Ivan Karizna** *Soddgrwth*
**Coleridge-Taylor** *Ballade yn A leiaf*
**Concerto i'r Soddgrwth** *Huw Watkins*
**Beethoven** *Symffoni Rhif 3 yn E fflat fwyaf 'Eroica'*



Mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn dychwelyd am eu perfformiad blynyddol yn yr Ŵyl. Martyn Brabbins fydd yn arwain y gerddorfa yn 'Ballade yn A leiaf' gan Samuel Coleridge-Taylor, bydd y soddgrythor Ffrengig Ivan Karizna yn ymuno â'r gerddorfa ar gyfer y Concerto i'r Soddgrwth gan y cyfansoddwr o Gymro Huw Watkins, a bydd y rhaglen yn dod i ben gydag un o ffefrynnau'r repertoire clasurol, sef Symffoni 'Eroica' Beethoven. Mae'r perfformiad blynyddol hwn yn un o'r uchafbwyntiau yn rhaglen pob Gŵyl, ac mae'n argoeli na fydd y perfformiad eleni'n eithriad i hynny.
***Tocynnau £30, £25, £15. Am ddim i bobl dan 18 oed***

## Dydd Sul 24 Mai

**11.00am Y Cymun Corawl**
*a gaiff ei ganu gan Gôr yr Eglwys Gadeiriol*

**4.00pm Yr Hwyrol Weddi ar Gân**
*a gaiff ei chanu gan y Cantorion Madrigalau Elisabethaidd*

## Dydd Llun 25 Mai

**11.00am Cyngerdd Coffi: Ysgolorion Corawl**
Ymunwch â'n hysgolorion corawl gwych, William Eardley-Taylor, Alto, Toby Diggle, Tenor a Matthew Fesmer, Baswr mewn datganiad o ariâu, caneuon celf a lieder.
***Tocynnau £10 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**2.00pm Cyngerdd i'r Teulu: Peter and the Wolf**
Mae organyddion yr eglwys gadeiriol, Simon Pearce a Laurence John, yn cyflwyno cyngerdd byr i'r teulu, gan berfformio Peter and the Wolf gan Prokofiev, wedi'i

# Rhestr o ddigwyddiadau ar gyfer Gŵyl Gerdd Eglwys Gadeiriol Tyddewi 2026

## Dydd Gwener 22 Mai

**2.00pm Cerddoriaeth Fyw Nawr - Mared Pugh-Evans**
Perfformiad rhad ac am ddim yn Neuadd y Ddinas i'r rhai sy'n derbyn gofal yn yr ardal leol, wedi'i berfformio gan y Delynores Frenhinol Mared Pugh-Evans.

**6.00pm Lansiad yr Ŵyl - Corws Plant yr Ŵyl**
Mae Gŵyl 2026 yn cychwyn gyda pherfformiad gan Gorws Plant yr Ŵyl, dan arweiniad Ula Weber. Mae Ula yn arweinydd, cantores ac animateur o fri sydd wedi gweithio gyda Sing for Pleasure, CBSO a'r BBC.
***Tocynnau £10 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

**8.00pm Y Delynores Frenhinol**
Mae Mared Pugh-Evans, Telynores Ei Fawrhydi'r Brenin, yn cyflwyno cyngerdd gyda'r hwyr o gerddoriaeth i'r delyn o Gymru a thu hwnt.
***Tocynnau £15 heb eu cadw. Am ddim i blant dan 18 oed***

## Dydd Sadwrn 23 Mai

**11.00am Cyngerdd Coffi: Coryddion yn Ymollwng**
Bydd Coryddion yr Eglwys Gadeiriol yn cefnu ar eu casogau ac yn cyflwyno rhaglen o'u hoff ganeuon poblogaidd a'u ffefrynnau o fyd sioeau cerdd. Un na ddylid ei golli!
***Tocynnau £10 heb eu cadw.***
***Am ddim i blant dan 18 oed***



# Gwybodaeth Bwysig

## Tocynnau

I weld gwybodaeth fanylach ac i ddewis eich seddi, archebwch ar-lein trwy Wefan Eglwys Gadeiriol Tyddewi - **www.stdavidscathedral.org.uk/music-festival**. Cysylltwch â'r Gweinyddwr, Ben Richards, ar 01437 722002 os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn ag archebu tocynnau. Caiff Noddwyr a Chefnogwyr yr Ŵyl archebu â blaenoriaeth o ddydd Sul 1 Mawrth, a bydd tocynnau ar werth i'r cyhoedd o **ddydd Sul 8 Mawrth.**

O ddydd Llun 18 Mai ac yn ystod yr Ŵyl, gellir cael tocynnau o Swyddfa Docynnau'r Ŵyl ar y Popls. Ar agor 10.00am - 4.00pm.

Os bydd tocynnau'n dal i fod ar gael, gellir eu prynu wrth ddrws yr Eglwys Gadeiriol cyn cyngherddau.

## Disgowntiau i Bobl Leol

Mae gan holl drigolion Tyddewi (diffinnir hyn yn ôl nodau post SA62 6BN - SA62 6XX yn Ward Tyddewi) hawl i gael disgownt o 20%. I fanteisio ar y cynnig hwn, e-bostiwch **ben@stdavidscathedral.org.uk** gyda sgan o'ch prawf preswylio (trwydded yrru neu ddogfen debyg), a bydd cod disgownt yn cael ei anfon atoch i'w ychwanegu pan fyddwch yn talu.

Mae tocynnau i bob digwyddiad am ddim i bob plentyn 18 oed neu iau pan fyddant yng nghwmni oedolyn, ond mae dal angen cofrestru ar gyfer y tocynnau hyn.

## Parcio a Mannau Parcio i Bobl Anabl

Gellir parcio ym meysydd parcio Merrivale, y Cwcwll, Oriel y Parc a'r Popls.

Mae mannau parcio i bobl anabl yn agos at yr Eglwys Gadeiriol yn gyfyngedig iawn a rhoddir blaenoriaeth i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn sy'n teithio ar eu pennau eu hunain. Cysylltwch â'r Gweinyddwr yn **ben@stdavidscathedral.org.uk** neu 01437 722002 os hoffech archebu man parcio i bobl anabl.

# Gŵyl Gerdd
# Eglwys Gadeiriol Tyddewi

## 22 - 31 Mai 2026



Noddwr Brenhinol:
Ei Fawrhydi Y Brenin

## Rhaglen 2026